# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
# 12 RHAGFYR 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Patrick Heesom, Christine Jones a David Wisinger, yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); a'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant).

Ar gyfer cofnod rhif 47
Rheolwr Amddiffyn Cymuned a Busnes a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu

Ar gyfer cofnod rhif 48
Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Pheiriannydd Prosiect, FCERN (Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 44. SESIWN GWYBODAETH

Cyn dechrau'r cyfarfod, rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau'r Pwyllgor ar Ddeddf Graddau Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 gan Sian Jones a Helen O'Loughlin. Cytunwyd y byddai'r sleidiau'n cael eu dosbarthu trwy e-bost.

## 45. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 46. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**47.** **RHEOLI PLÂU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Chris Bithell yr adroddiad ar waith gwasanaeth Rheoli Plâu'r Cyngor. Tynnodd sylw at y pwysigrwydd o ran parhau â'r gwasanaeth anstatudol hwn i helpu i gwrdd â'r agenda iechyd y cyhoedd.

Dywedodd y Rheolwr Amddiffyn Cymuned a Busnes fod ffocws cynyddol ar hyrwyddo'r gwasanaeth ac y gallai Aelodau gynorthwyo trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion.

Siaradodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu am brofiad helaeth y tîm bach wrth ddarparu gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel a gydnabuwyd mewn adborth cadarnhaol gan drigolion. Roedd nifer o fentrau i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd ar gael a oedd am bris cystadleuol ac yn cynnwys ymweliadau dilynol.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) bod gwasanaethau ataliol hefyd yn cael eu cynnig i gleientiaid ac mai'r nod hirdymor oedd datblygu model hunan-ariannu ar gyfer y gwasanaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans am ddelio â phroblemau plâu sy'n deillio o eiddo person arall. Dywedodd yr Arweinydd Tîm mewn perthynas â thir preifat y byddai'r tîm yn cysylltu â'r trigolion hynny ac yn rhoi cyngor i'w hannog i fynd i'r afael â'r broblem. Pe bai'r broblem yn digwydd ar eiddo'r Cyngor, gellid gwneud hyn trwy gydweithwyr yn y Gwasanaethau Tai.

Canmolodd y Cadeirydd y gwasanaeth a roddwyd gan y Cyngor. Teimlai na ddylai rhywun sy'n rhoi gwybod am bla ar eiddo cymydog ddwyn y gost o'i ddatrys a dylai cynghorau gael mwy o bwerau i fynd i'r afael â hyn.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Shotton broffesiynoldeb y tîm a thynnodd y Cynghorydd Legg sylw at y peryglon o anwybyddu rheolaeth pla.

Pan ofynnwyd am daliadau, dywedodd y Rheolwr fod y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu cynnwys gyda'r taflenni cyhoeddusrwydd sy'n cael eu dosbarthu i gleientiaid masnachol. Nododd, yn wahanol i gwmnïau'r sector preifat, sy'n darparu gwasanaethau rheoli plâu, roedd y Cyngor yn gallu cynnig cyfraddau rhatach i gartrefi sy'n cwrdd â'r meini prawf.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach, esboniodd swyddogion y trefniadau gyda North Clwyd Animal Rescue i gymryd cŵn crwydr.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn hyrwyddo'r gwasanaeth Rheoli Pla yn eu cymunedau lleol, lle bo modd.

**48.** **CYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD YR WYDDGRUG - ADOLYGIAD O YMARFEROLDEB OPSIYNAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell adroddiad ar waith diweddar dan arweiniad tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol y Cyngor (FCERM) ar

adolygiad o opsiynau ymarferol ar gyfer dylunio a darparu Cynllun Lliniaru Llifogydd yn yr Wyddgrug. Gwahoddwyd cynghorau i gyflwyno manylion cynlluniau ar raddfa fawr i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru (LlC) a oedd yn datblygu rhaglen genedlaethol pum mlynedd o gynlluniau FCERN gydag arian a ddyrannwyd. Ar ran y Cyngor, roedd Ymgynghorwyr Waterco Consultants wedi ymgymryd ag adolygiad o'r cynllun anfforddiadwy blaenorol yn yr Wyddgrug i archwilio opsiynau ymarferol eraill.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth fod yr ymgynghorwyr wedi cael eu comisiynu i nodi ffyrdd o weithredu'r cynllun yn ymarferol ac mai’r ymagwedd arfaethedig oedd cytuno ar raglen gyflenwi fesul cam o gynlluniau cydran llai. Roedd yr astudiaeth ymarferoldeb cychwynnol wedi nodi cyfanswm cost dros dro o £5.5m a'r bwriad oedd symud hyn i gam nesaf o adroddiad gwerthuso prosiect i ddarparu mwy o fanylion a phrofion. Roedd newidiadau i'r ddarpariaeth o gyllid grant yn golygu y gallai ceisiadau ar gyfer cynlluniau cymwys dderbyn cyfraniad rhwng 75-85% gan LlC gyda'r gweddill i'w ariannu o raglen gyfalaf y Cyngor.

Rhoddodd y Peiriannydd Prosiect drosolwg o wahanol elfennau'r cynllun a ddangoswyd ar y Map Cyfle, gan esbonio bod rhai ardaloedd yn gorgyffwrdd ond y gellid cyflwyno unrhyw un ar ei ben ei hun. Byddai'r adroddiad arfarnu prosiect yn darparu mwy o ddata technegol a mireiniad o’r costiadau i Lywodraeth Cymru i’w cymharu â chynlluniau eraill yn y rhanbarth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr Bateman a Shotton, rhoddodd y Peiriannydd Prosiect wybodaeth am danciau storio ataliol. Mewn perthynas â chostau, eglurodd y Rheolwr fod y cynllun blaenorol o £12 miliwn wedi cynnwys llawer iawn o waith peirianneg sifil ac y gallai'r dull 4-cam ar gyfer y cynllun newydd fod yn fwy manteisiol wrth ddenu arian Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn pryderon gan y Cynghorydd Owen Thomas ar yr ardaloedd cyfagos, rhoddodd y Peiriannydd Prosiect fanylion am waith lliniaru llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac eglurodd nod Opsiwn 7 mewn perthynas ag ardaloedd i'r de o'r Wyddgrug. Gallai gofynion cynllunio ar ddatblygiadau tai yn y dyfodol roi cyfle i gyflawni'r isadeiledd a ddymunir a byddai'n cynnwys cyfyngiadau ar gyfraddau dŵr ffo i sicrhau nad oedd y rhain yn ychwanegu at broblemau llifogydd. Er bod y cynllun newydd yn effeithio llai ar dirfeddianwyr, roedd rhai trafodaethau anffurfiol wedi digwydd a byddai dulliau ffurfiol yn rhan o'r cam nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion edrych ar ei bryderon ynghylch ardaloedd i lawr yr afon fel Llong a Phontblyddyn ac effaith llif o afonydd eraill yn ogystal ag Alyn. Dywedodd y Rheolwr y byddai'r gwaith parhaus ar y cynllun rheoli perygl llifogydd yn dod yn ôl i'w ystyried gan y Pwyllgor. Cytunodd y Peiriannydd Prosiect i wneud ymholiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar waith gwella a wnaed ym Mhontblyddyn.

Siaradodd y Cynghorydd Bithell am yr amrywiol achosion o lifogydd hanesyddol yn yr Wyddgrug a chymeradwyodd y ffordd ymlaen a nodwyd yn yr adroddiad a fyddai'n helpu i fynd i'r afael ag agweddau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cyfleoedd unigol a nodwyd yn Astudiaeth Dichonoldeb Waterco ar gyfer 'rheoli llifogydd yn gall' yn yr Wyddgrug yn cael eu symud ymlaen i'r cam 'Adroddiad Arfarnu Prosiect' fel bod yr opsiynau cychwynnol a nodwyd yn cael eu datblygu a'u profi ymhellach o ran eu hyfywedd economaidd ac felly y gellir eu cyflawni yn y dyfodol drwy rhaglen biblinell Llywodraeth Cymru.

## 49. CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 – MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cafodd yr aelodau adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar Gynllun y Cyngor ar gyfer 2017-23 ar gyfer y flaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd' a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) at y risg fawr (coch) ar argaeledd cyllid i ddarparu cynlluniau lliniaru llifogydd a oedd yn gysylltiedig â thrafodaeth gynharach. O ran rhannau eraill o'r adroddiad, byddai'r cynnydd ar ddatblygu strategaeth leol i wella ansawdd aer yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol ac atgoffwyd yr aelodau dyddiad cau cyfagos ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint.

Rhoddwyd esboniad gan y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) ar y raddfa cynnydd oren ar gyfer cludiant ysgol, oherwydd tua 30 o gontractau coleg a oedd yn mynd drwy'r broses dendro ar hyn o bryd.

Yn dilyn sylwadau cadarnhaol gan yr Aelodau, gofynnodd y Cadeirydd am ddiolch i dîm cynnal a chadw y gaeaf am eu gwaith caled yn ystod y tywydd garw diweddar. Mewn ymateb, soniodd y Cynghorydd Carolyn Thomas am ymdrechion pawb a oedd yn gysylltiedig i sicrhau bod y ffyrdd yn cael eu graeanu a bod y ganolfan alwadau yn weithredol.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Owen Thomas, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn ymarferol darparu graean i'r holl gontractwyr a ddefnyddiwyd gan y Cyngor a chyfeiriodd at gost a chyfaint yr halen a ddosbarthwyd ar ffyrdd hyd yn hyn y gaeaf hwn.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cwmnïau bysiau yn parhau i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle'r oedd modd pasio ar y ffyrdd. Dywedodd y Prif Swyddog fod pob cwmni wedi ymgymryd â'i weithdrefnau asesu risg ei hun a chytunodd i godi'r mater o gydlynu llwybrau bysiau yn well mewn cyfarfod sydd i ddod gyda Arriva.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid nodi adroddiad monitro canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2017/18 i fonitro tanberfformiad.

## 50. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Byddai'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2018 yn Nyffryn Maes Glas yn cynnwys eitemau ychwanegol ar y Cynllun Coed a Choetiroedd a Chostau Parcio Ceir.
- Byddai'r aelodau'n cael cadarnhad ynghylch yr ymweliad safle â Pharc Adfer, a drefnwyd dros dro ar gyfer 19 Chwefror 2017.
- Byddai adroddiad ar ansawdd aer rhanbarthol yn cael ei ychwanegu at y cyfarfod ar 13 Mawrth 2018. Tynnwyd sylw at y sesiwn wybodaeth ar dipio anghyfreithlon i'w gynnal cyn dechrau'r cyfarfod.
- Byddai'r adroddiad ar gludiant ysgol yn cael ei ystyried cyn diwedd y flwyddyn ysgol, o bosibl ym mis Ebrill 2018.
- Byddai'r eitem ar barcio wedi'i ddadgriminaleiddio ers 2013 yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Fel y gofynnwyd yn yr adroddiad, ystyriodd yr Aelodau eu patrwm cyfarfod dewisol ar gyfer y Pwyllgor a chytunwyd i barhau â'r slot cyfarfod presennol (yn gyffredinol ar ddydd Mawrth am 10am).

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Bod dewis y Pwyllgor i barhau i gyfarfod am 10am ar ddydd Mawrth yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd; ac

(c) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 51. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.30am)

…………………………
**Cadeirydd**